**ATODIAD 13** **Cymuned Ddysgu Abertyleri – Dadansoddiad Thematig o'r Ymgynghoriad â Disgyblion ac Ymatebion y Cyngor**

Caiff y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad o ymatebion ysgrifenedig – gan gynnwys negeseuon e-bost ac arolygon, ynghyd â mynychder pob un o'r themâu a grybwyllwyd yn flaenorol – eu nodi isod (o'r materion mwyaf i'r rhai lleiaf amlwg a nodwyd) a'r rheiny'n cynnwys cyfanswm o 10 thema:

| Thema | Mynychder | Ymatebion y Cyngor |
|---|---|---|
| **6 Phrif Thema** | | |
| **Ymlyniad Emosiynol a'r Ysgol fel Lle Diogel**<br><br>Mae'r thema a godwyd fynychaf yn ymwneud â phwysigrwydd emosiynol Ysgol Gynradd Roseheyworth ym mywydau disgyblion. Disgrifiodd nifer o ddisgyblion yr ysgol fel rhywle lle maent yn teimlo'n hapus, yn ddiogel, yn hyderus a'u bod yn cael eu cefnogi. Fe wnaeth disgyblion iau yn arbennig fynegi trallod emosiynol cryf wrth feddwl am gau'r safle, gan gynnwys tristwch, ofn a gofid.<br><br>Fe wnaeth nifer o ddisgyblion ddisgrifio'r ysgol fel eu "lle hapus" ac amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gartrefol. Mae'r ymatebion hyn yn awgrymu eu bod yn meddwl am Ysgol Gynradd Roseheyworth nid dim ond fel lleoliad addysgol ond hefyd fel ffynhonnell allweddol ar gyfer sefydlogrwydd emosiynol. | 22 | Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymlyniad emosiynol cryf disgyblion wrth Gampws Cymuned Ddysgu Abertyleri yn Heol Roseheyworth ac yn cydnabod bod llawer o blant yn ystyried bod yr ysgol yn amgylchedd diogel, anogol a chefnogol. Mae cryfder y teimlad a fynegwyd, yn enwedig gan ddisgyblion iau, wedi'i nodi'n llawn.<br><br>Pe bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod llesiant emosiynol disgyblion yn cael ei flaenoriaethu, a byddwn yn gweithio gyda Chymuned Ddysgu Abertyleri i roi cymorth lle y bo angen gyda chynllunio'r broses bontio, cymorth bugeiliol ac ymgysylltiad â theuluoedd ac ysgolion i leihau trallod i'r eithaf a chynorthwyo disgyblion i deimlo'n saff ac yn ddiogel mewn amgylchoedd newydd. |
| **Grwpiau Cyfeillgarwch ac Ofn Cael Eu Gwahanu**<br><br>Roedd ofn cael eu gwahanu oddi wrth grwpiau cyfeillgarwch hirsefydlog yn bryder blaenllaw. Dywedodd nifer o ddisgyblion eu bod wedi mynychu'r ysgol ers darpariaeth feithrin neu'r blynyddoedd cynnar ac fe fynegon nhw drallod ynghylch y syniad o fod wedi'u rhannu rhwng gwahanol ysgolion.<br><br>Cyfeiriodd disgyblion yn fynych at hanes cyffredin, cyfeillgarwch hirsefydlog, ac ymdeimlad cryf o berthyn. Roedd cael eu gwahanu oddi wrth gyfoedion yn cael ei | 21 | Mae'r Cyngor yn cydnabod y pwys y mae disgyblion yn ei roi ar gyfeillgarwch hirdymor a'r trallod sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o gael eu gwahanu oddi wrth grwpiau cyfoedion sefydledig.<br><br>Lle mae disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill, bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chymuned Ddysgu Abertyleri ar dderbyn disgyblion i gampysau eraill ac i gefnogi pontio fesul grŵp lle y bo'n bosibl a sicrhau y rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion gynnal |

| | | |
|---|---|---|
| ddisgrifio'n gyffredin fel rhywbeth annheg a oedd yn peri gofid, gyda phryderon y byddai'n effeithio'n negyddol ar lesiant emosiynol a mwynhad o'r ysgol. | | cyfeillgarwch a meithrin perthnasoedd cadarnhaol yn eu lleoliadau newydd. |
| **Pryderon a oedd yn gysylltiedig â Gorbryder, Llesiant Emosiynol ac Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau**<br><br>Fe wnaeth nifer sylweddol o ymatebion amlygu materion a oedd yn gysylltiedig â gorbryder a phryderon ynghylch iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Cyfeiriodd nifer o ddisgyblion yn benodol at awtistiaeth, sensitifrwydd synhwyraidd, gorbryder, hanes meddygol, neu deimladau o gael eu gorlethu gan amgylcheddau mewn ysgolion mwy, prysurach.<br><br>Fe wnaeth ymatebwyr bwysleisio pwysigrwydd gorchwylion cyfarwydd, staff adnabyddus, ac amgylcheddau rhagweladwy i gefnogi eu llesiant a dysgu. Roedd canfyddiad eglur y gallai symud i ysgolion mwy gynyddu gorbryder a lleihau gallu disgyblion i deimlo'n ddiogel a'u bod yn gallu rheoleiddio eu hemosiynau. | 18 | Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch gorbryder, llesiant emosiynol ac anghenion disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau. Cydnabyddir pwysigrwydd gorchwylion cyfarwydd, staff adnabyddus, ac amgylcheddau rhagweladwy.<br><br>Fel rhan o unrhyw brosesau pontio yn y dyfodol, byddai Cymuned Ddysgu Abertyleri'n cael ei chynllunio mewn partneriaeth gyda rhieni, disgyblion fel rhan o'r dull cyfan. Bydd trefniadau cymorth unigol yn eu lle i sicrhau bod anghenion penodol disgyblion yn cael eu diwallu a bod gofynion statudol o ran Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau yn dal i gael eu hateb mewn amgylchedd anogol. |
| **Perthnasoedd â Staff a Pharhad o ran y Gofal**<br><br>Mynegodd nifer o ddisgyblion ymlyniad cryf wrth athrawon a staff cymorth, a hwythau'n aml yn enwi aelodau unigol o staff. Disgrifiwyd y perthnasoedd hyn fel rhai a oedd yn llawn ymddiriedaeth, yn anogol ac yn ganolog i ymdeimlad disgyblion o ddiogelwch a'u hyder.<br><br>Codwyd pryderon ynghylch colli staff sy'n deall eu hanghenion, eu harddulliau dysgu, a'u sbardunau emosiynol unigol. Dynododd disgyblion fod meddwl am newid ysgolion yn teimlo'n arbennig o anodd am y byddai'n golygu ailfeithrin y perthnasoedd hyn a oedd yn llawn ymddiriedaeth. | 14 | Mae'r Cyngor yn cydnabod y perthnasoedd cryf y mae disgyblion wedi'u datblygu â staff addysgu a chymorth yng Nghampws Heol Roseheyworth a rôl y perthnasoedd hyn yn hyder disgyblion a'u hymdeimlad o ddiogelwch.<br><br>Nodir hefyd bod y plant yn cydnabod effaith bosibl newidiadau i staffio. Gan bod Campws Heol Roseheyworth yn rhan o Gymuned Ddysgu Abertyleri byddai unrhyw broses bontio'n cynnwys cyswllt rhwng Campysau i sicrhau parhad o ran gofal, bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol ac y rhoddir cymorth i ddisgyblion sefydlu perthnasoedd sy'n llawn ymddiriedaeth yn eu hamgylcheddau newydd ar y Campysau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith ar Ddysgu, Meintiau Dosbarthiadau a Chymorth**<br><br>Cododd disgyblion bryderon y byddai cau Campws Heol Roseheyworth yn arwain at feintiau dosbarthiadau mwy ar y Campysau sy’n derbyn, gan arwain at lai o sylw unigol gan athrawon. Mynegodd rhai disgyblion bryder na fyddent yn cael yr un lefel o gymorth academaidd, yn enwedig y rhai ac arnynt angen help ychwanegol neu ymyrraeth wedi’i thargedu.<br><br>Fe wnaeth disgyblion hŷn fyfyrio ynghylch pwysigrwydd addysg gynradd gref fel sylfaen i fod yn barod ar gyfer yr ysgol uwchradd, gan fynegi pryder y gallai tarfu effeithio’n negyddol ar ddeilliannau addysgol hirdymor. | 12 | Mae pryderon ynghylch meintiau dosbarthiadau, lefelau cymorth a’r effaith bosibl ar ddeilliannau dysgu wedi’u nodi. Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau, yn eu cyfanrwydd, bod dau gampws cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri sy’n derbyn disgyblion yn cael adnoddau priodol a’u bod yn gallu diwallu anghenion dysgu’r disgyblion.<br><br>Byddai darpariaeth addysgol yn parhau i gael ei monitro i sicrhau bod disgyblion yn cael lefelau addas o gymorth a bod safonau dysgu ac addysgu’n cael eu cynnal ac felly hefyd arfer presennol Cymuned Ddysgu Abertyleri. |
| **Teithio, Hygyrchedd a’r Gallu i Gerdded i’r Ysgol**<br><br>Fe wnaeth nifer o ddisgyblion amlygu manteision mynychu ysgol sy’n hygyrch yn lleol. Dywedwyd fod gallu cerdded i’r ysgol yn rhywbeth sy’n cefnogi annibyniaeth, hyder a llesiant. Mynegodd disgyblion bryder ynghylch pellterau teithio hwy, mwy o flinder, a gorbryder sy’n gysylltiedig â theithiau anghyfarwydd.<br><br>Mae’r ymatebion hyn yn dynodi bod hygyrchedd ac agosrwydd yn ffactorau arwyddocaol ym mhrofiadau cadarnhaol disgyblion o’u hysgol. | 11 | Mae’r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd hygyrchedd lleol, a’r manteision y mae disgyblion yn eu cysylltu â gallu cerdded i’r ysgol.<br><br>Bydd pellter teithio, trefniadau cludiant a llesiant disgyblion yn ystyriaethau allweddol mewn unrhyw gynllunio gyda’r Cyngor a Chymuned Ddysgu Abertyleri yn y dyfodol. Lle y bo’n ofynnol, bydd cymorth addas gyda chludiant yn cael ei ystyried yn unol â pholisi’r Cyngor ar gludiant rhwng y cartref a’r ysgol 2027/28. |
| **Themâu (parhad)** | | |
| **Amgylchedd, Cyfleusterau a Mannau Agored yr Ysgol**<br><br>Cyfeiriodd disgyblion yn fynych at amgylchedd ffisegol Campws Heol Roseheyworth, gan gynnwys meysydd chwarae mawr, caeau awyr agored, gweithgareddau Ysgol Goedwig, plannu, anifeiliaid, a digwyddiadau cymunedol. Dywedwyd fod y nodweddion hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at ddysgu, mwynhad a rheoleiddio emosiynol. | 10 | Mae’r Cyngor yn cydnabod gwerthfawrogiad y disgyblion o amgylchedd ffisegol, mannau agored a gweithgareddau cyfoethogi Campws Heol Roseheyworth, gan gynnwys gweithgareddau Ysgol Goedwig a digwyddiadau cymunedol. Cydnabyddir gwerth amgylcheddau dysgu awyr agored o ran cefnogi llesiant ac ymgysylltiad. |

| | | |
|---|---|---|
| Roedd yr amgylchedd awyr agored yn aml yn gysylltiedig ag atgofion a phrofiadau cadarnhaol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. | | Bydd 2 gampws cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri sy'n derbyn yn parhau â mentrau megis Ysgolion Coedwig a digwyddiadau cymunedol a byddent yn gallu darparu amgylcheddau diogel, ysgogol sy'n cefnogi dysgu ac yn cefnogi datblygiad emosiynol. |
| **Rôl Gymunedol ac Effaith ar Wasanaethau Lleol**<br><br>Dangosodd rhai disgyblion, yn enwedig disgyblion hŷn a mynychwyr blaenorol, ymwybyddiaeth o rôl ehangach Campws Heol Roseheyworth yn y gymuned leol. Cyfeiriwyd at ddarpariaeth gofal plant gofleidiol (gan gynnwys grwpiau Mini Me), cymorth i deuluoedd sy'n gweithio, a'r ysgol fel hyb cymunedol.<br><br>Mynegodd disgyblion bryder y byddai cau'r safle'n effeithio'n negyddol ar deuluoedd a gwasanaethau y tu hwnt i boblogaeth uniongyrchol yr ysgol. | 9 | Mae'r Cyngor yn cydnabod ymwybyddiaeth disgyblion o rôl ehangach y campws yn y gymuned leol, gan gynnwys darpariaeth gofal plant a chymorth i deuluoedd.<br><br>Mae'r effeithiau ehangach posibl ar y gymuned wedi cael a byddant yn parhau i gael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori, ochr yn ochr ag amcanion strategol ehangach sy'n ymwneud â darparu addysg a chynaliadwyedd. |
| **Pryderon ynghylch Ymddiriedaeth, Tegwch a'r Ymgynghoriad**<br><br>Fe wnaeth nifer lai o ymatebion fynegi dicter, rhwystredigaeth neu ddiffyg ymddiriedaeth tuag at benderfynwyr. Soniodd disgyblion am deimlo nad oeddent yn cael eu clywed neu eu bod yn credu bod penderfyniadau wedi cael eu gwneud yn barod cyn ymgynghori.<br><br>Er eu bod yn aml wedi cael eu mynegi'n emosiynol, mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu canfyddiad nad oedd barn a phrofiadau disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn. | 7 | Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch ymddiriedaeth a chanfyddiadau am y broses benderfynu. Mae llais y disgybl a'r ymgynghoriad yn rhan bwysig o'r broses ymgysylltu ar y cyfan, ac mae pob barn a fynegwyd wedi cael ei hystyried yn ofalus ochr yn ochr ag adborth gan rieni, staff a rhanddeiliaid eraill.<br><br>Ni fydd unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud heb roi ystyriaeth ddyladwy i bob ymateb i'r ymgynghoriad. |
| **Tlodi, Amddifadedd a Phwysau ar Deuluoedd**<br><br>Fe wnaeth rhai disgyblion hŷn gyfeirio'n benodol at leoliad yr ysgol mewn ardal amddifadus ac amlygu effeithiau anghymesur posibl ar deuluoedd sy'n profi caledi ariannol. Roedd pryderon yn cynnwys costau cludiant, rhieni'n gorfod gollwng disgyblion mewn mwy nag un ysgol, a phwysau ar deuluoedd sy'n gweithio. | 6 | Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch pwysau ariannol a'r effaith bosibl ar deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n profi amddifadedd.<br><br>Mae cydraddoldeb a ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses benderfynu, a bydd unrhyw ganlyniad sy'n deillio o'r cynnig hwn yn cael ei asesu i sicrhau bod |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r ymatebion hyn yn dynodi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach. | | effeithiau anghymesur yn cael eu hadnabod a'u lliniaru lle y bo'n bosibl. |